Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mai 8, 2018 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Simon Evans, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Gareth Ellis. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins, Carwyn Evans.

2. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Geraint Rowlands
Is Gadeirydd: Simon Evans.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.
Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 10, 2018

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 10, 2018

Eitem 4. Eitem 8.l. Llythyr (27/2/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Amgáu mae Adroddiad Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan <http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy>
Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

O'r adroddiad, nid yw Cynghorwyr Cymuned a Thref yn wirfoddolwyr oherwydd maent wedi derbyn cyfrifoldebau ac o hyn maent yn cael taliad o£ £150 y flwyddyn tuag at gostau defnyddio ffôn, technoleg gwybodaeth ac yn y blaen. Yn yr adroddiad mae cymal: Gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i ddewis rhoi heibio rhan neu'r cyfan o'r hawl i unrhyw un o'r taliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y Cyngor yn ysgrifenedig.

Penderfynwyd i'r aelodau sydd ddim angen y swm £150 i roi gwybod i'r Clerc cyn cyfarfod mis Gorffennaf. Bydd yr aelodau sydd angen y taliad yn ei gael yn cyfarfod mis Medi.

6. Materion Ariannol

a. Dogfennau (12/4/2018) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2018 i 31/5/2019. Y tâl i'w adnewyddu yw £618.26. (Tal flwyddyn ddiwethaf oedd £613.78).

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Llythyr (6/4/2018) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen a'r dogfennau cyn Mehefin 12, 2018.

Fel roedd ei angen, dangoswyd 'Hysbysiad pennu dyddiad ar gyfer ymarfer hawliau etholwr Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (Atodiad 7 / Appendix 7)' a 'Crynodeb o hawliau etholwyr (Atodiad 8 / Appendix 8)' ar y pedwar hysbysfwrdd. Cymrwyd ffotograff yn dangos yr hysbysiad.

Manylion roedd eu hangen:

Copïau yn dangos gwariant ac incwm.
Arddangos rhybudd yn rhoi gwybodaeth i'r etholwyr o'u hawliau yn yr archwiliad.
Copïau o'r cofnodion yn dangos ein bod wedi cymryd sylw o'u hargymhellion.
Faint o arian sydd yn y banc ar 31 Mawrth 2018.
Copi o'r gofrestr etholwyr.
Rhestr o arian rhoddwyd fel rhodd.
Cyflog y Clerc, a'r honorarium mae Janet Edwards yn ei gael. Roeddynt eisiau copi contract y Clerc.,

Arwyddodd y Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol ac archwilwyd y ffurflen gan yr aelodau.

c. Llythyr (25/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod Cyngor Lleol ar gyfer 2018/19 o 1/4/2018. Mae'r cyflog yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol ar Raddfeydd i Glercod.

Cyflog presennol y Clerc yw £9.120 yr awr ar bwynt SCP 17, h.y. £9.120x 12 x 12 = £1,313.28 y flwyddyn.

Cyflog newydd am 2018/19 fydd £9.705 yr awr ar bwynt SCP 17, h.y. £9.705x 12 x 12 = £1,397.52 y flwyddyn.

Penderfynwyd codi cyflog y Clerc i bwynt SCP19, sef £10.107. Bydd y cyflog yn £10.107 x 12 x12 = £1,455.40 y flwyddyn.

ch. Bil (26/4/2018) am £386.40 oddi wrth Cyngor Gwynedd am lenwi biniau halen. (7@£46 = £322.00 + £64.40 (TAW).

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Anfonwyd (3/5/2018) copi o'r adroddiad 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanelltyd 2017-2018' i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

dd. Balans yn y banc ar 29 Ebrill, 2018: £10,684.22.

7. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (26/4/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno gydag Un Llais Cymru ar Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth na fydd Awdurdodau Claddu yn codi ffioedd mewn perthynas â chladdu plentyn dan 18 oed. Nid yw i gynnwys costau at gofeb, ffioedd ymgymerwr angladdau, blodau neu arch. Bydd y Llywodraeth yn flynyddol yn gwneud swm o £600,000 ar gael i'w ddyrannu ymysg y cynghorau. Amgáu mae copi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cyngor Gwynedd sy'n rhoi eu Polisi Claddu. Mae Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol eisiau gwybod os ydym ni am fabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Os ydym, bydd adennill costau gan Gyngor Gwynedd yn golygu anfon anfoneb at Gyngor Gwynedd am werthu ffioedd claddu.

Rhoddwyd gwybod i Un Llais Cymru, trwy gwblhau ffurflen, rydym yn fodlon gwneud i ffwrdd â thaliadau claddu ar gyfer plant hyd at oed 18. (Cofnodion Tachwedd 14, 2017 Eitem 6.a.).

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol ein bod yn mabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Penderfynwyd newid Rheolau y Fynwent i gydymffurfio a'r rheolau newydd gladdu plentyn dan 18 oed.

Penderfynwyd anfon copi o'r prisiau y fynwent am 2018/2019 (doedd dim newid) i Glyn Rees a'i Fab, I.B. Williams a'i Fab a D. Gabriel.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/288B. Trosi allandy i ddarparu anecs preswyl. Bryn y Môr, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (13/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda ffurflen angen dau gynrychiolydd i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer a Gareth Ellis fod y cynrychiolwyr.

b. Llythyr (16/4/2014) oddi wrth Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn rhoi gwybod am lansiad Gwobr Pentrefi Meirionnydd 2018. Mae cyfle i bentrefi Meirionnydd i gystadlu am wobr i ddangos mae ganddynt le gwych i fyw. Mae gwahoddiad i ddau aelod o'r Cyngor fod yn bresenol at lansio'r wobr ar ddydd Iau, Mai 10, 2018 am 6.00yh yn Y Ganolfan, Porthmadog. Amgáu mae ffurflen i'w chwblhau.

c. Llythyr (19/4/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae angen y Cyngor cael Data Protection Officer i gyd ymffurfio â General Data Protection Regulation (GDPR). Mae'n berthnasol os mae gan y Cyngor wybodaeth bersonnol. Mae'r rheol yn dod i rym ar Fai 25, 2018.

Llythyr (26/4/2018) oddi wrth Un Llais yn rhoi gwybod mae'r Llywodraeth wedi rhoi cynnig nid oes angen i gynghorau cymuned a thref penodi Data Protection Officer.

ch. Llythyr (17/4/2018) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (1/5/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth am Gynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru yn Hafod a Hendre, Maes y Sioe Amaethyddol ar Gorffennaf 4, 2018 am 9.30yb.

dd. Llythyr (1/5/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybood:

Bydd Ffordd Hafod, Bontddu yn cael ei arwisgo.
Bydd ffordd Tai Cynhaeaf, Bontddu yn cael ei arwisgo.

e. Llythyr (1/5/2018) oddi wrth Panel Adolygu Annibynnol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. I gael barn y cyhoedd ar ddyfodol Cynghorau Cymuned a Thref, maent yn gofyn i ni gynnal sesiwn 'galw heibio' ar unrhyw amser dydd Iau Mai 24, 2018. Byddent yn darparu deunyddiau marchnata ond bydd rhaid i ni wneud y trefniadau. Maent eisiau gwybod ein penderfyniad cyn Mai 8.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

a. Mae'r ddau hysbysfwrdd yn Llanelltyd wedi eu hadnewyddu.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Meurig Ashton mae angen clirio eiddew sy'n tyfu ar loches bws Taicynhaeaf.